# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 9 Ebrill 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Non Dafydd, Jeff M Evans, John Ifan Jones, Euryn Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Margaret Murley Roberts, Ken Taylor a Sonia Williams<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd Gary Pritchard - Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd<br><br>Y Cynghorydd Robin Williams - Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Gwasanaethau Tai |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br>Prif Reolwr Datblygu Economaidd (TJ) (ar gyfer eitem 5 yn unig),<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD),<br>Swyddog Sgriwtini (EA),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH),<br>Swyddog Gweddarlledu Gwasanaeth Pwyllgorau (FT). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn (ST) (ar gyfer eitem 4 un unig)<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd Neville Evans - Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol;<br>Y Cynghorydd Alun Roberts - Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion, Cydraddoldeb a Diogelwch Cymunedol;<br>Y Cynghorydd Dafydd Roberts - Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg;<br>Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas - Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo. |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Nicola Roberts - Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd;<br><br>Mr John Tierney - Yr Eglwys Gatholig Rufeinig<br>Dirprwy Brif Weithredwr |

Ni wnaeth y cyfarfod gychwyn tan 2.15 yp oherwydd problemau technegol.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodir uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Bu i'r Cynghorydd Euryn Morris ddatgan diddordeb personol yn Eitem 4 - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd - Trefniadau Llywodraethu a chraffu cynnydd yn erbyn Cynllun Llesiant 2023-2028, gan ei fod yn cael ei gyflogi gan Gyngor Gwynedd ac ar secondiad gyda'r Bwrdd Uchelgais.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2025 yn gywir.

Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2025 :-

**Eitem 4 - Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2024**

**Gweithred 1** - Bod y Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg a Chydraddoldeb yn ystyried cynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth a chryfhau'r data sylfaenol am staff, gan ddefnyddio gwybodaeth o'r Sgwrs Flynyddol er mwyn monitro tueddiadau.

**Bydd y Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg a Chydraddoldeb yn cyfarfod yn ystod mis Ebrill/Mai 2025.**

**Gweithred 2 -** Ailystyried cyflwyno hyfforddiant Cydraddoldeb newydd ar gyfer staff ac Aelodau Etholedig, yn dilyn cymeradwyo'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2024.

**Cwblhawyd y weithred - bydd hyfforddiant gorfodol yn cael ei ddarparu i Aelodau Etholedig a bydd modiwlau e-ddysgu ar gael i staff.**

**Gweithred 3 -** Archwilio ffyrdd o wella dealltwriaeth Aelodau Etholedig o'r broses gynefino gorfforaethol ar gyfer staff newydd, ar y cyd ag Adnoddau Dynol.

**Camau ar y gweill - trefnwyd cyfarfod rhwng Swyddogion y Tîm Polisi a'r Gymraeg a'r Tîm Hyfforddiant.**

**Gweithred 4 -** Ailystyried teitl a chwmpas y Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg a Chydraddoldeb.

Camau ar y gweill - Bydd y Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg a Chydraddoldeb yn cyfarfod yn ystod mis Ebrill/Mai 2025.

## 4 BWRDD GWASANAETHAU GWYNEDD AC YNYS MÔN - TREFNIADAU LLYWODRAETHIANT A CHRAFFU CYNNYDD AR WIREDDU'R CYNLLUN LLEISIANT 2023-2028

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr i'r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Portffolio Cyllid a Gwasanaethau Tai fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Roedd y Ddeddf hefyd yn sefydlu'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru, gyda chynrychiolaeth gan gyrff cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae sefydliadau cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn wedi dod ynghyd i gydweithio fel un Bwrdd. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydweithio fel sefydliadau partner er mwyn sicrhau fod cynlluniau strategol yn cyd-fynd ag amcanion llesiant lleol ac yn cefnogi'r dasg o'u gwireddu. Nododd mai'r brif her i'r Bwrdd yw sefydlu ymhle y gall ychwanegu'r gwerth mwyaf a gwneud gwahaniaeth gyda'r adnoddau a'r capasiti cyfyngedig sydd ar gael. Cyhoeddwyd Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn 2023-2028 ym mis Mai 2023 ac roedd yn amlygu tri amcan Llesiant penodol, fel y nodir yn yr adroddiad. Mae'r Iaith Gymraeg yn flaenoriaeth barhaol i'r Bwrdd ac mae'n cael ei hyrwyddo ym mhob agwedd o waith y Bwrdd. Ychwanegodd fod seremoni wedi'i chynnal ym mis Mawrth 2025 er mwyn i'r ddau Gyngor lofnodi'r Siarter Teithio Llesol ac roedd Mr Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, yn bresennol.

Yn dilyn sylwadau a wnaed yn flaenorol gan y Pwyllgor, dywedodd Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn fod manylion ychwanegol wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ynglŷn â'r prosiectau sydd ar y gweill gan y Bwrdd a'r sefydliadau sy'n eu rhoi ar waith, ynghyd â'r canlyniadau a chynlluniau pellach i'w cyflawni yn y dyfodol. Mae methodoleg System Gyfan Pwysau Iach wedi ei fabwysiadu fel ffordd o weithio drwy waith y Bwrdd, a gallai ddylanwadu ar y dewis o fwydydd iach a fforddiadwy sydd ar gael a chreu cyfleoedd i bobl ymarfer a chadw'n heini. Ychwanegodd bod yr Iaith Gymraeg yn flaenoriaeth barhaol i'r Bwrdd, fel y nododd y Dirprwy Arweinydd.

Trafododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:-

- Gofynnwyd sut mae'r Bwrdd wedi blaenoriaethu meysydd lle gall ychwanegu'r gwerth mwyaf o ystyried yr adnoddau a'r capasiti cyfyngedig sydd ar gael iddo. Mewn ymateb, dywedodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Portffolio Cyllid a Gwasanaethau Tai fod y diffyg adnoddau a chapasiti yn her i bob sefydliad partner ac i'r ddau Gyngor Sir. Nododd fod y Bwrdd yn dymuno cyflawni'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd. Dywedodd Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn mai hwn yw ail Gynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac mae gwersi wedi'u dysgu er mwyn caniatáu i sefydliadau partner weithio'n fwy effeithlon a rhannu adnoddau. Nododd fod gwaith rhanbarthol ychwanegol yn cael ei wneud bellach er mwyn elwa ar yr adnoddau sydd ar gael.
- Nodwyd bod Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru'n ymgynghori ar y Siarter Teithio Llesol ar hyn o bryd. Gofynnwyd a ddylai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus weithio'n agos â'r Bwrdd Uchelgais gan fod ganddynt fwy o adnoddau i

gwblhau'r gwaith. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr, fod y Siarter Teithio Llesol wedi cael ei hystyried a'i llofnodi er mwyn hwyluso teithio llesol a llesiant ar gyfer gweithwyr yn y sefydliadau partner. Ar hyn o bryd, mae Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru yn ymgynghori ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru. Pan sefydlwyd y Bwrdd Uchelgais a'r Bwrdd Partneriaeth roedd sicrhau nad yw gwaith yn cael ei ddyblygu yn flaenoriaeth ac mae'r Byrddau'n cydweithio gan fod Arweinyddion Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn yn aelodau o'r Bwrdd Uchelgais a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

- Cyfeiriwyd at y Prosiect Gweithlu Dwyieithog a sefydlwyd i ystyried pam fod sefydliadau cyhoeddus yn cael anawsterau wrth recriwtio staff i swyddi lle mae'r Gymraeg yn ofynnol. Gofynnwyd oni ddylai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gydweithio â Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru oherwydd bod ganddynt Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at restr o sefydliadau sy'n aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, fel y nodir yn yr adroddiad o dan 1.3, a dywedodd fod gan rai o'r sefydliadau hyn gyfrifoldebau ehangach ar lefel Gogledd Cymru. Nododd fod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn yn gallu trafod y materion sydd â chyd-destun penodol yn ymwneud ag Ynys Môn/Gogledd Cymru, yn hytrach na materion rhanbarthol (h.y. Gogledd Cymru).
- Gofynnwyd i ba raddau mae sefyllfa tlodi wedi effeithio ar weithredu'r cynllun llesiant. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr mai pwrpas y cynllun tlodi yw lleihau effaith tlodi. Dywedodd fod adnoddau'n brin, ond serch hynny mae'r Awdurdod yn gweithio gyda sefydliadau partner lleol a'r trydydd sector er mwyn ceisio lleihau effaith tlodi. Nododd ei bod yn bwysig rhannu arfer dda a dysgu gan arbenigwyr h.y. Sefydliad Bevan, er mwyn sicrhau fod tlodi'n cael ei ddehongli'n gywir. Ychwanegodd fod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn yn gallu sicrhau fod yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael yn cael eu defnyddio'n effeithlon a bod penderfyniadau gwybodus yn cael eu gwneud. Nodwyd y gallai asiantaethau lleol bychan ddarparu gwybodaeth bwysig am bobl sy'n wynebu tlodi. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr fod aelodaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn statudol ond, er hynny, gellid ystyried sefydlu rhwydwaith o asiantaethau llai sy'n gweithio yn y gymuned ac y mae ganddynt rôl o ran cyflawni amcanion y Bwrdd (os oes adnoddau ar gael).
- Gofynnwyd pa wersi sydd wedi'u dysgu gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn seiliedig ar brofiadau'r gorffennol, a sut maent wedi dylanwadu ar ei strwythur, er mwyn osgoi dyblygu gwaith a wneir gan y sefydliadau partner. Ymatebodd y Prif Weithredwr trwy ddweud nad yw'r Bwrdd yn debygol o ddyblygu gwaith sefydliadau partner, a hynny oherwydd diffyg capasiti ac adnoddau. Nododd fod gweithio gyda'r Bwrdd yn gyfle i ddylanwadu ar sefydliadau partner eraill a rhannu arferion da. Cafwyd enghreifftiau gan Reolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn o'r gwaith sydd wedi'i wneud gan y Bwrdd mewn perthynas â Phwysau Iach a Thlodi ac y cyfeirir atynt yn yr adroddiad. Nododd ei bod yn bwysig rhannu arferion da ac osgoi dyblygu gwaith sefydliadau eraill. Gofynnwyd rhagor o gwestiynau am gynnydd yn nifer y siopau tec-awê ar y stryd fawr a gofynnwyd a yw'r Awdurdod Iechyd yn ymateb i'r broses gynllunio pan fydd cyfleusterau o'r fath yn agor, a hynny o safbwynt materion pwysau iach. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Bwrdd Iechyd bellach yn ymateb i'r broses gynllunio. Nododd fod gan yr Awdurdod gynllun strategol, trwy Môn Actif, sy'n blaenoriaethu bod yn iach ac actif.

- Gofynnwyd sut all amcan lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sicrhau fod plant a phobl ifanc yn cyrraedd eu potensial. Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn fod sefydliadu partner yn cytuno fod yr 'amcan plant a phobl ifanc' yn flaenoriaeth, er mwyn caniatáu gwaith i gael ei wneud mewn meysydd penodol megis effaith trawma ar flynyddoedd cynnar plentyn a'u cyflawniadau, a dyfodol plant a phobl ifanc. Nododd fod pob aelod o'r Bwrdd yn derbyn hyfforddiant ar y cynllun Gwybodus am Drawma er mwyn eu galluogi i adnabod effeithiau trawma ar blant a phobl ifanc. Mae gwaith rhanbarthol yn cael ei wneud hefyd er mwyn amlygu'r cyfleoedd sydd ar gael i alluogi pobl ifanc i fedru gweithio o fewn eu cymunedau lleol yn hytrach na gorfod gadael er mwyn cael gwaith.
- Cyfeiriwyd at yr amcan 'ymgysylltu lleol', ac yn enwedig anghenion y gymuned leol trwy wella mynediad a thrafnidiaeth ym Mro Aberffraw. Gwnaethpwyd sylw bod angen i fwy o Swyddogion o'r Awdurdod a sefydliadau eraill fynychu cyfarfodydd ymgysylltu â'r gymuned, yn enwedig ym mhentref Niwbwrch. Nodwyd y byddai'r prosiectau ym Mro Aberffraw yn parhau hyd fis Chwefror 2026, fel y nodir yn yr adroddiad. Holwyd am brosiectau yn yr ardal yn y dyfodol, ar ôl Chwefror 2026. Dywedodd Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn fod blaenoriaethau'r prosiect 'ymgysylltu lleol' yn effeithio ar bobl sy'n byw ac yn gweithio yn ward Bro Aberffraw. Nododd mai'r gobaith yw y byddai mesurau a gyflwynir yn y tymor byr a'r tymor hir yn mynd i'r afael â phroblemau traffig yn yr ardal oherwydd bod cynifer o bobl yn ymweld â'r ardal. Cyfeiriodd Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn hefyd at y cynlluniau ar gyfer ward Bro Aberffraw yn dilyn Chwefror 2026 a nododd y byddai angen cynnal adolygiad i fesur effeithiolrwydd Grŵp Bro Aberffraw. Dywedodd bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithredu ar sail Tasg a Gorffen wrth roi sylw i brosiectau ac allbynnau penodol.
- O ystyried bod y Cyd-bwyllgor Corfforedig newydd wedi'i sefydlu, gofynnwyd beth fydd rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac a oes perygl y gallai hynny arwain at ddyblygu. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr fod strwythurau llywodraethu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn weithredol a bod ganddo flaenoriaethau clir. Nododd fod ardaloedd daearyddol yng Ngogledd Cymru'n wahanol i'w gilydd ac nad yw blaenoriaethau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'u cynnwys ar hyn o bryd yng nghylch gorchwyl/llywodraethiant y Cyd-bwyllgorau Corfforedig.
- Holwyd pa brosiectau sydd heb eu cwblhau eto. Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn bod gwaith y Bwrdd Gwybodus am Drawma wedi llithro oherwydd anhawster i ddod â'r holl sefydliadau partner at ei gilydd er mwyn derbyn hyfforddiant, ond cytunwyd ar ddyddiadau er mwyn i Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod gynnal hyfforddiant yn y dyfodol agos. Ychwanegodd fod prosiect Tlodi'r Bwrdd wedi llithro hefyd, yn ogystal â'r gweithdai gyda Sefydliad Bevan. Dywedodd yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio ar gyfer Datblygu Economaidd fod yr Awdurdod wedi ymrwymo i fod yn Awdurdod sy'n Wybodus am Drawma ar draws holl wasanaethau'r Cyngor a chymunedau Ynys Môn. Nododd fod bod yn rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn yn caniatáu i'r holl sefydliadau partner fod yn Wybodus am Drawma.

**PENDERFYNWYD derbyn trefniadau llywodraethiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Llesiant 2023-2028 a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023.**

## 5 PORTHLADD RHYDD YNYS MÔN - DIWEDDARIAD

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd i'r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd fod Llywodraethau'r DU a Llywodraeth Cymru wedi gwahodd bidwyr i gyflwyno cynigion ar gyfer Porthladdoedd Rhydd yng Nghymru yn 2022. Ardaloedd dynodedig yw Porthladdoedd Rhydd lle mae nifer o gymhellion economaidd ar gael i ysgogi'r economi leol ac annog twf a buddsoddiad. Datblygwyd Porthladd Rhydd Ynys Môn i gyd-fynd yn llawn â gweledigaeth, amcanion a gwerthoedd Cynllun y Cyngor 2023-2028, gan ganolbwyntio'n benodol ar gydweithio, yr iaith Gymraeg, hyrwyddo'r ynys a hyrwyddo cyfleoedd fydd yn creu swyddi a thwf yn yr economi. Mae'r Porthladd Rhydd yn gyfle i ddenu buddsoddiad newydd sylweddol gan y sector preifat ac mae hyn yn hynod o bwysig o ystyried y cyd-destun, gan fod nifer sylweddol o swyddi wedi eu colli yn ystod y 10 mlynedd ddiwethaf, gan effeithio ar yr ynys. Dywedodd bod safleoedd dynodedig eraill ar yr Ynys a allai fanteisio ar statws y Porthladd Rhydd.

Trafododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:-

- Gofynnwyd pa gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant allai ddeillio o'r Porthladd Rhydd a holwyd a fyddai isadeiledd yr Ynys yn gallu cynnal mewnlifiad o weithwyr? Mewn ymateb, dywedodd yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd fod rhaid i'r Awdurdod fod yn realistig ac ni ddylid codi disgwyliadau ynglŷn â chyfleoedd cyflogaeth a allai ddeillio o'r Porthladd Rhydd ar gychwyn y broses; rhagwelir y bydd y prosiect Porthladd Rhydd yn creu rhwng 3,000 a 4,000 mewn blynyddoedd i ddod. Nododd y byddai'r cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant yn ddibynnol ar y cwmnïau sy'n dewis lleoli eu busnesau yn yr ardaloedd dynodedig ar yr Ynys. Mae Grŵp Llandrillo Menai, M-Sparc a Phrifysgol Bangor, y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a'r Bwrdd Uchelgais yn rhan o drafodaethau ynglŷn â photensial y Porthladd Rhydd a byddant yn barod i ddarparu cyfleoedd hyfforddi pan fydd gwybodaeth ar gael ynghylch pa fusnesau fydd yn sefydlu yn yr ardaloedd dynodedig.
- Gofynnwyd a fyddai'r gyllideb flynyddol o £600k yn ddigon i gwrdd ag anghenion gweithredol Porthladd Rhydd Ynys Môn. Mewn ymateb, dywedodd yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd y credir bod y gyllideb flynyddol o £600k yn ddigonol gan fod y Porthladd Rhydd yn gymharol fychan o gymharu â Phorthladdoedd Rhydd eraill, a bydd cwmnïau sy'n sefydlu yn yr ardaloedd dynodedig yn cyfrannu arian.
- Nodwyd y gallai denu mewnlifiad o weithwyr i ardal wledig Gymraeg ei hiaith gael effaith ar yr iaith Gymraeg. Dywedodd yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd y byddai sicrhau cyfleoedd cyflogaeth yn sicrhau dyfodol yr Ynys gan y byddai darparu gwaith i bobl ifanc yn gwarchod yr iaith Gymraeg. Bydd plant teuluoedd sy'n adleoli i'r Ynys yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion lleol a bydd yn diogelu'r iaith Gymraeg mewn

cymunedau lleol. Dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd mai un o dri amcan strategol y prosiect Porthladd Rhydd yw'r ymrwymiad i'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig ac mae'r ddwy Lywodraeth, yn ogystal â'r sefydliadau partner, wedi cydnabod yr iaith a bydd yn cael ei hadlewyrchu yn y cytundebau cyfreithiol gyda'r busnesau fydd yn sefydlu yn yr ardaloedd dynodedig.
- Gofynnwyd a fyddai'r dair swydd a nodwyd ar gyfer y cwmni yn ddigon i gyflawni'r gwaith helaeth sydd angen ei wneud er mwyn gwireddu'r Porthladd Rhydd. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r dair swydd o fewn y cwmni'n tynnu pwysau oddi ar staff yr adran Datblygu Economaidd ac y byddant yn derbyn cyfrifoldeb am waith cydymffurfiaeth ac adrodd i'r ddwy Lywodraeth.
- Cyfeiriwyd at amcangyfrifon y prosiect sy'n nodi y gallai tua 3,500 o swyddi newydd gael eu creu ar hyd a lled Gogledd Cymru. Gofynnwyd a fyddai trefniadau ar waith i wneud y mwyaf o gyfleoedd cyflogaeth lleol/rhanbarthol. Ategodd yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd y sylw mai amcangyfrif yw'r ffigwr o 3,500 o swyddi ac mae'r nifer gwirioneddol yn ddibynnol ar y cwmnïau fydd yn sefydlu ar yr Ynys fel rhan o'r dynodiad Porthladd Rhydd. Dywedodd y byddai pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau fod pobl Ynys Môn yn derbyn cyfleoedd am waith.
- Gofynnwyd a fyddai ffin ar draws yr Ynys mewn perthynas â'r Porthladd Rhydd. Gwnaethpwyd sylwadau hefyd fod angen gwarchod hawliau gweithwyr. Mewn ymateb, dywedodd yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd fod y Cyngor yn disgwyl am gadarnhad gan y ddwy Lywodraeth ynglŷn â llacio'r rheolau yng Ngogledd yr Ynys. Cyfeiriodd at hawliau gweithwyr a nododd bod Porthladdoedd Rhydd yng Nghymru'n wahanol i Borthladdoedd Rhydd yn Lloegr, yn dilyn ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd fod yr Ynys gyfan wedi'i chynnwys yn y statws Porthladd Rhydd, yn unol â chanllawiau cenedlaethol.
- Gofynnwyd a fyddai'r Heddlu ac asiantaethau gorfodaeth eraill yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau ynglŷn â'r statws Porthladd Rhydd, gan y gallai gweithgareddau anghyfreithlon arwain at broblemau. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd mai'r Awdurdod yw'r corff atebol a phan fydd natur y busnesau fydd yn sefydlu yn yr ardaloedd dynodedig yn eglur, rhoddir trefniadau ar waith mewn perthynas â gofynion cefnogi a gorfodaeth.
- Gofynnwyd a fyddai ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau ar y safle dynodedig yn cael eu hystyried trwy broses gynllunio'r Awdurdod. Dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd y byddai'r broses gynllunio'n digwydd trwy brosesau cynllunio'r Awdurdod. Nodwyd y byddai'r Cyngor yn gwahodd Safleoedd Ymgeisiol drwy'r broses Polisi Cynllunio wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Ynys Môn. Gofynnwyd a fyddai angen cyflwyno datblygiadau ar y safleoedd dynodedig fel Safleoedd Ymgeisiol? Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd fod yr holl safleoedd dynodedig wedi'u dynodi'n safleoedd cyflogaeth. Dywedodd y Prif Weithredwr fod gwaith yn mynd rhagddo ar dri safle, sef safle 2Sisters yn Llangefni, hen safle Alwminiwm Môn a chaniatâd amlinellol ar gyfer ail adeilad yn Msparc.
- Nodwyd y byddai angen gweithwyr crefftus er mwyn manteisio ar y cyfleoedd a grëir yn sgil y Porthladd Rhydd. Gofynnwyd a oes digon o gyfleoedd hyfforddi ar

gyfer pobl ifanc yr Ynys ac a oes digon yn cael ei wneud i dynnu eu sylw at y cyfleoedd fydd yn cael eu creu gan y Porthladd Rhydd yn y dyfodol. Dywedodd yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd y byddai Grŵp Llandrillo Menai a Phrifysgol Bangor, trwy Msparc a'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol, yn hanfodol er mwyn hyrwyddo'r sgiliau angenrheidiol, pan fydd yn eglur pa gyfleoedd cyflogaeth fydd ar gael.

- Gofynnwyd a fydd yr Awdurdod yn gallu dylanwadu ar y math o fusnesau fydd yn sefydlu yn y safleoedd dynodedig. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd y byddai nodau ac amcanion y Porthladd Rhydd yn cael eu hadlewyrchu yn y cytundeb gydag aelodau'r Porthladd Rhydd a thirfeddianwyr.
- Gofynnwyd i ba raddau mae'r cynnydd mewn tollau ar nwyddau sy'n cael eu hallforio i'r Unol Daleithiau'n effeithio ar amcan y Porthladd Rhydd o hybu masnach ryngwladol. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Reolwr Datblygu Economaidd fod gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael ag effaith bosib y cynnydd yn y tollau, a dywedodd y byddai'n adrodd i'r Pwyllgor ar y gwaith hwnnw maes o law.

**PENDERFYNWYD:-**

- Cydnabod rôl y Cyngor o ran datblygu Porthladd Rhydd Ynys Môn, gan gynnwys cyflwyno'r Achosion Busnes Amlinellol a Llawn;
- Cydnabod cadernid y trefniadau llywodraethu a throsglwyddo o'r Bwrdd Cysgodol i'r Bwrdd Llawn;
- Nodi'r camau nesaf o ran cadarnhau'r Porthladd Rhydd, gan gynnwys yr angen i gymeradwyo Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru cyn y daw'r Porthladd Rhydd yn weithredol.

**6 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR 2025/2026**

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Rheolwr Sgriwtini a oedd yn manylu ar Flaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar gyfer 2025/2026.

**PENDERFYNWYD cytuno'r fersiwn gyfredol o'r Flaen Raglen Waith ar gyfer 2025/26.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.10 o'r gloch

**CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**